.WG35.S.29

# MARWNAD,

AR

FARWOLAETH

## THOMAS DAVIES

O YSGOD-REDDFYN, Y'MHLWYF LLYWEL,

*SIR FRECHEINIOG.*

PREGETHWR YR EFENGYL

AELOD O EGLWYS SARDIS.

YR HWN A ORPHENODD EI DAITH
RHAGFYR Y TRYDYDD, 1810.
Yn 23 o'i Oed.

---

Gan DAFYDD WILLIAMS, LLANWRTYD,

---

2 Sam. i. 17.
*A Dafydd a alarnadodd yr alarnad hon.*

---

TALGARTH:
Argraphwyd gan M. Hughes.
1811.

CW5299 Y2053OFW2I

# Marwnad. &c.

1 TRWM newyddion ſydd yn tramwy
Am weithredoedd brenin braw,
Yn gwneud ugeiniau o driſt wynebau
Trwy'n hardaloedd yma a thraw,
Nid yw'n arbed ieungctyd dawnus,
Mwy na'r rhai oedranus teg,
Cwympa'r gwr na chadd ond talent,
Gwna'r un modd â'r hwn ga'dd ddeg.

2 Mae yn torri'r egin iraidd
Cyn i'r rhain flodeuo'n llawn,
Cangau gwan o frig y gwinwydd,
Pan heb fanw 'roedd eu grawn,
Planigyn hardd o ardd yr eglwys,
'Roed i orwedd dan y don,
Gan i angeu a'i farwol ergyd,
Lynu o'i ſaeth o dan ei fron.

3 *Tomas Davies* aeth o'r rhyfel,
I'r wlad dawel uwch y llawr,
I gyd uno mewn caniadau,
Gyd â'r dorf aneiri fawr,
Lle mae heddyw'n ſwnio'n beraidd
Glodydd ei Waredwr glan,
A'i ſerch yn dwym at Dri mewn Undod,
Wedi ei 'nynnu â nefol dân.

4 Galwyd ef gan Dduw i *Sardis*,
Yn ei eglwys fe ga'dd le,

Cyflawn oedd ei yspryd bywiog,
O rasusau teg y Ne;
Cafodd ddawn i'r weinidogaeth,
Llygad Eryr, wyneb Llew
Calon dyner o ddynoliaeth,
Ac fel Ych llafyrus glew.

5 Treiddie mewn i bethau dyfnion,
Dywedai'n hŷ'r gwirionedd glan,
Heb noddfa'r gwaed nad oedd ond uffern
I'r holl werin fawr a man;
Safodd ar yr adwy danllyd,
A llewyrchu yno wnaeth,
Daliwyd ef gan fraich anfeidrol
Nes rhoi terfyn ar ei waith.

6 *Troed-rhiw-dalar* a *Llrnwrtyd*,
Bu e'r sul diwedda ond un,
Ac y cafodd rodio allan,
I ddyweud am gariad Duw at ddyn,
Sardis gynnes lle dechreuodd
Bu yr un diwedda i gyd,
Dros ei Arglwydd yn llafurio,
Cyn myn'd mewn i'r nefol fyd.

7 Wedi i ragflaenoriaid angeu,
O gornwydau y Frech wen,
Ledu dros ei babell briddlyd,
Cafodd nerth o'r wlad uwch nen
I fyn'd allan yn ei ardal,
Am y tro diwedda byth,
I daer geisio ei gym'dogion
Ddo'd i'r bryniau i wneud eu nyth.

8 Wedyn aeth yn waelach waelach,
Methu siarad fel o'r blaen,

Y gair diweddâf a ddeallwyd,
Ydoedd, Iechydwriaeth lân!
Brenin mawr y dychryniadau,
Ddaeth i rwygo ei natur wan,
Nes datglymu oddi wrth ei gilydd,
Gorph ac enaid bob yn rhan.

9 Ar ddydd llun 'fe 'hedodd adreu,
Trwy'r changder loyw lâs,
Wedi dal y frwydyr wresog,
Ca'dd y congcweſt ar y ma's,
Yr oedd y glyn heb niweid iddo,
Ar ffordd yn rhydd i dŷ ei Dad,
A'i enaid gwan mor wyn a'r eira,
Wedi ei gannu yn y gwaed.

10 Dringodd yr wybrennu fynu,
Gyd â llu angylaidd ryw,
Mor gyflymed braid a'r meddwl,
Nes mwynhau'r trigfannau gwiw:
Heibio i Jupiter a Saturn,
Georgeium Sidus pell eu lle,
Troed i lawr ni ro'dd i orphwys
Nes cartrefu yn y Ne.

11 Gwelodd yno gwmp'ni cynes,
Mewn llawn hwyl yn moli'r Oen,
Oll a'u gynnau diſglair wynion,
Ddaeth o'r cyſtudd mawr a'r poen:
Gwelodd lu o gyn-ddiluwiaid
Ac Abel flaena ymhlith y rhain,
Patriarchiaid a Phrophwydi,
I gyd a'u gwiſg o liain main.

12 Gwelodd lu o dan Efengyl,
Heb un cweryl yno yn bod
Ymneillduwyr ac Eglwyſwyr,

Am yr uwcha yn canu clod;
*Luther* ddewr, a *Chalfin* dreiddiol,
*Doctor Owen* mawr ei ddawn,
A *Henry* gynes at y bywyd,
Dyna'r cwmpni yno gawn.

13 Gwell yw ganddo drigo yno,
Fwy na mil o weithiau'n un,
Na d'od yn ol i barch y ddaear,
I feddu'r mwya gafodd dyn,
Pob tangnefedd sy'n yr ardal,
Gwenau'r Oen sy ar y llu,
Ni ddiffygiant ganu iddo,
I oesoedd tragywyddoldeb fry.

14 Ffarwel i ti frawd dros 'chydig,
Ti est adreu'n fore iawn,
Ninnau ddeuwn ar ein mulod
Cyn machludo'r haul brydnawn;
Ni chewch chwi sydd yna'n barod,
Prin ond eisteu yn eich lle,
Cyn b'o torf sy gwedi geni,
Gyrraedd mewn i'w cynes dre.

15 Ei gorph a rowd mewn bedd i orwedd
Yn mynwent *Llywel* wrth y llan,
Hyd nes delo bloedd yr angel,
Yna y co'd E'n gryno i'r lan;
Wedi gadael llygredigaeth,
Yn y ddaear ar ei ol,
Delw'r Pen fydd arno'n gyflawn,
Pan cyrraeddo'r gynnes gôl

16 Oedran Crist pan aeth i orphwys
I Baradwys at ei Dduw,
Ydoedd deunaw cant o flwyddau,
Deg yn chwaneg sicr yw:

Ac ynteu'n dair o flwyddau ac ugain,
  Pan cyrraeddodd ben ei daith,
I gyd wledda gyd â'r dyrfa,
  Yn ardal tragywyddoldeb maith.

17 Tri ryw glwyf a ges gan angeu,
  Trwm wrth deithio'r dyffryn dû;
Symmyd trwodd i Baradwys,
  Rai defnyddiol gyd â ni;
Meiſtr *Price* fy hên dad dawnus,
  Aeth i orphwys gynta draw,
Galar mawr ſy pan bwy'n cofio,
  Mor dirioned oedd ei law.

18 Dan ei aden ces fy magu,
  Yr oedd ef i'm yn gyfaill mwyn,
Ni bu neb o wilwyr seion,
  Yn fwy tirion wrth yr wyn;
Byth ni thaflai'r garreg gyntaf
  Er na lithrodd dim o'i dro'd,
Gŵg ni welid ar ei wyneb,
  Heb fod achos mawr yn bod.

Neſa at hyn 'rwy'n cofio'r newydd,
  Ac a rodd i'm calon loes,
Fod Brawd anwyl gwedi huno,
  *Dafydd Evans* lon o'r Ffôs,
I Lanwrtyd daeth yn aelod,
  Yno trefnwyd E gan y Ne,
Bu faith flwydde yn gweini'r byrdde,
  Llanwodd ef heb fwlch ei le.

20 Pan bai galwad am geryddu,
  Dyweda'r gwir mewn yſpryd llym,
Gwaeddai'n uchel ar yr eglwys,
  Mofyn crefydd yn ei grym

Lledai'i aden dros y gweiniaid
Magai'r plant â llaeth didwyll.
Dweud am lawnder iechydwriaeth
'Wnai ef wrthynt gyd â phwyll.

21 'Rwy'n caru'r man mae gorph yn gorwedd
Caru gweld ei garreg Fedd
Er bod un rhan iddo yno,
Y mae'r llall yn yfed hedd,
Ni chlywaf mwy o'i lais ewynfanus,
Yn ochneidio gyd â ni,
Er na chânodd lawer yma,
Peraidd mae yn canu fry.

22 Saeth ddiweddaf ddaeth i'm clwyfo,
Hi chwanegodd at fy mriw,
Clywed fod y *Davies* iraidd,
Wedi ei dorri o dir y byw,
Ychydig oedd o feddwl genni',
'*Mhentre Cauo*, wrth ei wedd,
Mai honno fyddai'r olwg ola,
Yr ochr hyn i'r dwfwn fedd.

23 Tra bu yma yn llafurio,
Mawr ei zêl yngwaith ei dad,
Prif ddifyrwch *Tomas* ydoedd,
Dyweud am rinwedd maith y gwaed,
Nid oedd ef heb feiau ynddo,
Mwy nag eraill ar y llawr
Peidied pawb a choffa y rheini,
Gladdwyd yn y cenfôr mawr.

24 Chwithau dad a mam alarus
A rodd eich mab mewn daear fedd,
Na thristewch fel rhai heb obaith,
Cewch ei weld ymore'r hedd;

I lefwch bawb o'i holl berth'nafau,
Am gael Iefu i chwi'n nŷth,
Dyna'r man bydd eich eneidiau
Yn ddiogel ddigon byth.

25 Cwynfan fydd o fewn eglwyfi,
Am ei ddawn a'i fobrwydd E,
Taer ddymunwch wrth yr o fedd
Am rai etto lanwo ei le;
Tyrfa fawr fy heb eu galw,
Brynwyd ar galfaria fryn,
Rhaid cael offerynau cymmwys,
At y gorchwyl pwyfig hyn.

26 Wedi bod yn wafgaredig,
Yn crwydro wyneb llawr,
Cwrdd y dorf o waredigion,
Pan del bloedd yr udgorn mawr,
Bydd y dwyrain a'r gorllewin
*Gogledd* Dehau yno ynghyd,
A'r wybrenau yn dadfeinio,
Peraidd glod Iachawdwr byd.

---

DIWEDD.